
2022





# Tir na n-Og

GWOBRAU • AWARDS

## Pecyn Cynllun Cysgodi


Gwobrau Tir na n-Og 2022

Categori Cynradd





## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Llyfrau'r Rhestr Fer | 2 |
| Siarad Cyfrolau – Cwestiynau a Phwyntiau Trafod | 3 |
| Adnabod Awdur | |
| Sioned Wyn Roberts | 4 |
| Huw Aaron | 6 |
| Casia Wiliam | 8 |
| Y Beirniaid | 10 |
| Sylwadau'r Beirniaid | 11 |
| Tudalen Nodiadau | 14 |
| Cardiau Pleidleisio | 15 |


#CaruDarllen

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES




**Gwag y Nos** *Ffuglen Hanesyddol*
Sioned Wyn Roberts (Atebol)

Ers i Magi Bryn Melys, sy'n dipyn o rebel, symud i Wyrcws Gwag y Nos, mae hi wedi bod yn ddraenen yn ystlys Nyrs Jenat. Ond mae bod yn rebel yn beryglus, ac un bore mae pethau'n dechrau mynd o ddrwg i waeth i Magi.

Mae'n amlwg bod rhywbeth mawr iawn o'i le yn y Wyrcws, ond pwy sydd ar fai? A fydd Magi'r rebel yn llwyddo i achub ei ffrindiau a datrys cyfrinach dywyll Gwag y Nos? Dyma ei stori hi ...

---





**Gwil Garw a'r Carchar Crisial** *Nofel graffeg*
Huw Aaron (Broga)

Cyn hanes, cyn y chwedlau, roedd...GWIL GARW! Ei swydd: i gadw trefn ar greaduriaid hudolus y Sw Angenfilod. Y broblem: Does dim diddordeb o gwbl gyda Gwil mewn heddwch. Wedi i'w dymer a'i chwilfrydedd roi'r byd mewn perygl, mae'n rhaid i Gwil, rywsut, ffeindio ffordd i wella pethau, mewn antur epig, llawn hiwmor a rhyfeddodau.

Fideo #CaruDarllen Huw Aaron

---




**Sara Mai a Lleidr y Neidr** *Ffuglen*
Casia Wiliam, darluniau Gwen Millward (Y Lolfa)

Mae Sara Mai yn ei hôl ac mae dirgelwch ar droed yn Sw Halibalŵ. Mae rhywun wedi dwyn neidr werthfawr iawn o'r sw felly mae Sara a'i ffrindiau yn penderfynu ceisio dal y lleidr. Y cwestiwn mawr i'r criw ydy ai dieithryn sy'n gyfrifol, neu rywun sydd reit o dan eu trwynau?

Fideo #CaruDarllen Casia Wiliam

# Siarad cyfrolau












## Cwestiynau a Phwyntiau Trafod

- Beth fwynheuoch chi am y llyfr?
- Disgrifiwch eich hoff ran o'r llyfr. Pam mai dyna yw eich hoff ran?
- Beth wnaethoch chi ddim mwynhau am y llyfr?
- Oedd y llyfr yn hawdd ac yn bleserus i'w ddarllen?
- Oedd y llyfr yn wahanol i'ch disgwyliadau chi? Os felly, sut?
- Oeddech chi'n hapus gyda diwedd y stori? Pam hynny?
- Beth hoffech chi newid am y llyfr a pham? Sut baset chi'n ei newid?
- Hoffech chi ddarllen y llyfr eto? Pam hynny?
- Pa gwestiynau oedd gyda chi am y stori wrth i chi ddarllen y llyfr? Gawson nhw eu hateb? Os do, sut?
- Pa gwestiynau sydd gyda chi am y stori ar ôl gorffen y llyfr?
- Ydych chi'n credu y byddwch chi'n cofio'r llyfr yma ymhen ychydig fisoedd neu flynyddoedd? Pam hynny?
- Disgrifiwch y llyfr mewn brawddeg.
- Yn eich barn chi, fyddai newid lleoliad neu gyfnod y stori'n effeithio ar y stori? Ym mha ffordd?
- Ydych chi'n credu bod teitl y stori'n gweddu i'r stori? Pam hynny? Os na, beth fyddech chi'n galw'r llyfr?
- Beth yw eich barn chi ar glawr y llyfr?
- Gawsoch chi eich atgoffa o unrhyw lyfrau eraill, ffilmiau neu raglenni teledu wrth ddarllen y llyfr yma?
- Hoffech chi ddarllen mwy o lyfrau fel hyn? Pam hynny?
- Beth yw eich barn chi ar y themâu sy'n cael eu trafod yn y llyfr?
- Yn eich barn chi, i bwy mae'r llyfr yma'n addas?
- Petaech chi'n cwrdd â'r awdur, pa dri chwestiwn hoffech chi ofyn iddo?
- Petai tri chopi o'r llyfr gyda chi i'w rhoi yn anrhegion, i bwy fasech chi'n eu rhoi nhw a pham?
- Petai'r llyfr yn cael ei droi'n rhaglen deledu neu ffilm, pwy fasech chi'n castio yn brif gymeriadau? Pam hynny?
- Ydych chi wedi dysgu unrhyw beth trwy ddarllen y llyfr yma? Os ydych chi, beth?
- Oes unrhyw beth hoffech chi ddysgu rhagor amdano ar ôl darllen y llyfr yma?
- Gan beth gawsoch chi eich synnu yn y llyfr yma? Ym mha ffordd?
- Sylwoch chi ar unrhyw batrymau yn y stori?
- Petaech chi'n gallu cwrdd ag unrhyw gymeriad yn y llyfr, pa gymeriad fyddai hynny a pham?
- Petaech chi'n gallu bod yn y llyfr, pa ddigwyddiadau hoffech chi fod yn rhan ohonyn nhw a pham?

# Sioned Wyn Roberts










**Dwedwch ychydig wrthym am y llyfr?** Stori Magi Bryn Melys ydy *Gwag y Nos*. Rebel ydy Magi ac ers iddi hi symud i wyrcws Gwag y Nos, mae hi wedi bod yn ddraenen yn ystlys Nyrs Jenat. Ond mae bod yn rebel yn beryglus ac mae Nyrs Jenat yn dial ar Magi yn y modd mwyaf creulon. Daw yn amlwg bod rhywbeth mawr iawn o'i le yn y wyrcws ond pwy sydd ar fai? A fydd Magi'r rebel yn llwyddo i achub ei ffrindiau a datrys cyfrinach Gwag y Nos? Stori am ddewrder, cyfeillgarwch, anghyfiawnder a *girl-power* Fictorianaidd.

**Sut brofiad oedd ysgrifennu'r llyfr?** Gwag y Nos yw fy nofel gyntaf ac roedd yn lot o hwyl, lot o waith ac yn broses eithaf hir. Mae'n rhaid plethu cymaint o elfennau gwahanol i mewn ac mae hynny yn cymryd llawer o waith meddwl a phendronni. Ag o'n i'n methu stopio meddwl am y stori ddydd a nos.

Ond y peth mwyaf od oedd... pan orffenais y nofel a theimlo'n fodlon â llif y stori, roedd hi fel petai Magi yno ar y dudalen olaf, yn aros amdanaf i ac yn dweud, 'Wrth gwrs dyna oedd fy stori i – lle ti di bod mor hir.'

**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?** Pwllheli

**Ble aethoch chi i'r ysgol?** Ysgol Troed-yr-Allt ac yna ysgol uwchradd Glan-y-Mor, Pwllheli.

**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?** Roeddwn i'n hapus iawn yn yr ysgol. Ond un peth o'n i'n ei gasáu oedd hoci. Roeddwn i'n annobeithiol a fi oedd yr olaf i gael fy newis i'r tim bob tro, ac o'n i'n casáu'r teimlad yna!

**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny?** Deintydd

**Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn?** *Luned Bengoch* gan Elizabeth Watkin-Jones.

**Beth yw eich diddordebau?** Darllen, cerdded, ysgrifennu, celf a ffilm.

**Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?** Teulu, natur a lan y môr


**Beth sy'n eich gwylltio chi?** Jac y ci.

**Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu?** Tair blynedd yn ôl tra ar gwrs yng nghanolfan Tŷ Newydd. Roeddwn i wedi ysgrifennu darn byr am forwyn

# Sioned Wyn Roberts








fach mewn plasty ac fe awgrymodd y tiwtor y byddai hwnnw'n sail i nofel dda. Fyswn i erioed wedi meddwl ysgrifennu nofel fel arall.

**O ble rydych chi'n cael eich syniadau?** Mae Gwag y Nos wedi'i gosod yn 1867 felly roedd rhaid i mi chwilota mewn hen ddogfennau ar y we. Ges i lawer o ffeithiau a syniadau da yn fanno, ond roedd hi'n sioc i weld pa mor greulon oedd plant yn cael eu trin yn oes Fictoria. Fyswn i erioed wedi gallu dychmygu creulondeb fel'na. Mae cysylltiad teuluol hefyd – roedd fy hen hen nain, Mary Roberts a'i phump o blant wedi gorfod mynd i Wyrcws Pwllheli ac mae eu henwau nhw i gyd i'w gweld yng nghyfrifiad 1881. Felly mae hanes yn sbarduno syniadau a thanio'r dychymyg.

**Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch?** Hanes. Chwedlau. Cymeriadau cryf. Antur.

**Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?** Jest cer amdani. A dal ati, does neb yn ei chael hi'n iawn tro cyntaf. Roedd rhaid i mi olygu ac ail-ddrafftio Gwag y Nos degau o weithiau cyn i mi deimlo ei fod yn ddigon da.

**Beth yw'r peth gorau / gwaethaf am fod yn awdur?** Y peth gorau gen i ydy creu byd a chymeriadau hollol newydd. A phan maen nhw'n dod yn fyw, mae'n rhaid i mi orffen dweud eu stori nhw. Y peth gwaethaf ydy sgwennu llwyth o dudalennau, mynd i hwyl y stori a meddwl ei fod o'n ffantastig. Ond yna ei ddarllen yn ôl a sylweddoli mai sothach llwyr oedd y cyfan a s'gen i ddim clem sut i'w wella!

## Cwestiynau Cyflym

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?** *Luned Bengoch* gan Elizabeth Watkin-Jones

**Hoff gymeriad o lyfr?** Dwn i ddim am 'hoffi' ond mae Miss Havisham o *Great Expectations* gan Charles Dickens yn gymeriad cofiadwy.

**Hoff le?** Pen Llŷn

**Hoff fwyd?** Tost a menyn hallt

Hoff ffilm/rhaglen deledu? Ffilm *School of Rock* a rhaglen deledu *Miri Mawr* ers talwm

**Hoff air?** Crinc

**Superpower o ddewis?** Bod yn anweledig

**Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol?** Instagram

**Beth sy'n gwneud i chi wenu?** Babis eliffantod ciwt ar instagram


**Swydd tase chi dim yn awdur?** Swydd ddelfrydol? Dylunydd ffasiwn

**Top tip i ddarpar awduron** Cer amdani, jest dechreua sgwennu ac fe ddaw rhywbeth i dy ben. A mwynha!

ADNABOD AWDUR

# Huw Aaron








**Dwedwch ychydig wrthym am y llyfr?** Mewn byd chwedlonol llawn hud a lledrith a chreaduriaid rhyfeddol, swydd Gwil Garw yw cadw trefn a heddwch mewn sw angenfilod. Ond yn anffodus, mae'n well gan Gwil ymladd a dweud jôcs na chadw trefn ac, ar ddamwain, mae'n rhyddhau perygl enfawr i'r byd. Rhaid i Gwil casglu criw at ei gilydd i achub y dydd, cyn bod hi'n rhy hwyr!

**Sut brofiad oedd ysgrifennu'r llyfr?** Hir! Mae'r llyfr ar ffurf comic, ac yn ogystal ag ysgrifennu'r stori, fi wnaeth yr holl waith arlunio hefyd, sy'n cymryd amser. Wnaeth rhannau o'r stori ymddangos dros gyfnod o 5 mlynedd yng nghomic Mellten – ond roedd rhaid ail-sgwennu darnau ac ychwanegu lot mwy er mwyn ei droi'n stori gyflawn.

**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?** Yr Uplands, Abertawe

**Ble aethoch chi i'r ysgol?** Bryn-y-Môr, wedyn Ysgol Gyfun Gŵyr.

**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?** Hoffi: chwarae pêl-fasged gyda ffrindiau rhwng pob gwers
Casáu: Ein gwisg ysgol brown a du. Come on – BROWN a DU?

**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny?** Rhywbeth ym myd animeiddio, neu greu gemau cyfrifiadur.

**Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn?** *Yng Ngwlad y Pethau Gwyllt, Redwall, A Wizard of Earthsea, Lord of the Rings* – unrhyw beth mewn byd ffantasïol rhyfeddol.


**Beth yw eich diddordebau?** Darllen, Chware gemau bwrdd, byd natur, gwylio rygbi

**Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?** 'Film night' nos Wener gyda'r teulu a bowlen fawr o bopcorn!

**Beth sy'n eich gwylltio chi?** Pobl yn torri coed i lawr.

# Huw Aaron








**Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu?** Ro'n i'n ysgrifennu straeon a gwneud lluniau hyd pan o'n i'n blentyn, ond byth meddwl bod e'n rhywbeth baswn i'n gallu neud fel job go iawn. Ond wedi i mi weithio mewn job 'go iawn' oedd yn ddiflas am dipyn, dyma fi'n dechrau chwilio am bethe mwy diddorol i wneud – fel creu lluniau a straeon!

**O ble rydych chi'n cael eich syniadau?** Gan Xrrjf, y coblyn sy'n byw yn nrôr gwaelod fy nesg.

**Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch?** Dim yn benodol – stori dda sy'n bwysig, ac mae'r pwnc neu thema yn dod wedyn. Ond mi ydw i yn hoffi straeon gyda chymysgiad da o ryfeddu, hiwmor a chalon.

**Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?** Hanfod ysgrifennu stori yw creu problem i'ch cymeriad, ac wedyn ei ddatrys. Y mwyaf yw'r broblem, y gorau yw'r stori. O fwlis yn yr ysgol, i alien mawr porffor sydd eisiau dinistrio hanner y bydysawd – gweld y broblem o safbwynt eich cymeriad sy'n bwysig.

**Beth yw'r peth gorau / gwaethaf am fod yn awdur?** Peth gorau: chi'n troi syniad anweledig sydd ond yn bodoli tu fewn i'ch brên weird chi mewn i BETH go iawn. Sydd, gobeithio, yn neud pobl eraill yn hapus. Peth gwaethaf: dyfalbarhau pan mae'ch hyder yn y syniad cychwynnol yn pylu, sy'n digwydd i fi tua hanner ffordd trwy bob un prosiect.

## Cwestiynau Cyflym

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?** *Redwall* gan Brian Jacques

**Hoff gymeriad o lyfr?** Obelix, o gyfres Asterix

**Hoff le?** Y Gŵyr

**Hoff fwyd?** Pwdin siocled a hufen iâ

**Hoff ffilm/rhaglen deledu?** Unrhywbeth gan Studio Ghibli

**Hoff air?** Bondigrybwyll

**Superpower o ddewis?** Byddai infinity gauntlet yn cŵl, diolch.

**Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol?** YouTube

**Beth sy'n gwneud i chi wenu?** Curo fy chwaer at Wordle

**Swydd tase chi dim yn awdur?** Dylunio gemau bwrdd

**Swydd ddelfrydol?** Creu llyfrau sili i blant!

**Top tip i ddarpar awduron** Mae gorffenedig yn well na perffaith.

# Casia Wiliam








**Dwedwch ychydig wrthym am y llyfr** Rydym yn dychwelyd i Sw Halibaliw yn y stori hon, ac mae dirgelwch ar droed; mae rhywun wedi dwyn neidr werthfawr o'r Sw! Tydi Sara Mai a'i ffrindiau ddim yn ymddiried yn yr heddlu i ddatrys y direglwch felly maen nhw'n penderfynu ceisio darganfod pwy yw lleidr y neidr ei hunain.

**Sut brofiad oedd ysgrifennu'r llyfr?** Hyfryd dros ben! Roedd yn braf cael dychwelyd at Sara Mai a'r criw a rhoi antur arall iddyn nhw, a dysgu mwy am anifeiliaid newydd fel Pedemelon a nadroedd.

**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?** Yn Llangefni nes oeddwn i'n chwech ac yna yn Nefyn ym Mhen Llŷn.

**Ble cawsoch chi eich addysg?** Ysgol Nefyn, Ysgol Botwnnog, Coleg Meirion Dwyfor ym Mhwllheli ac yna ym Mhrifysgol Aberystwyth

**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?** Roeddwn i'n licio y gwersi Cymraeg a Saesneg, a'r pwdin reis crispies siocled, ac yn casáu rheolau hollol wirion fel dim ond yn cael gwisgo cotiau du. Hollol hurt!

**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny?** Doeddwn i erioed yn rhy siŵr, a tydw i dal ddim yn saff! Roeddwn i awydd bod yn geidwad sw ar un pwynt, dyna pam fy mod wedi sgwennu Sw Sara Mai.

**Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn?** Roeddwn i'n hoff iawn o lyfr Lleuad yn Ola, T.Llew Jones, a straeon Alffi a Lili Mei pan oeddwn i'n fach iawn. Yna yn fy arddegau roeddwn i wrth fy modd gyda Llyfrau Judy Blume.

# Casia Wiliam








**Beth yw eich diddordebau?** Ysgrifennu yn greadigol, darllen, coginio a chrwydro.

**Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?** Fy meibion, prynhawn dydd Gwener a siocled.

**Beth sy'n eich gwylltio chi?** Pobl sydd ddim yn codi baw ci!

**Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu?** Dwi ddim yn cofio meddwl am ysgrifennu erioed, dim ond gwneud. Roedd o'n rhywbeth naturiol iawn. Does gen i ddim cof o beidio ysgrifennu straeon bach a hanesion.

**O ble rydych chi'n cael eich syniadau?** Wrth grwydro, am dro neu ar fy meic. Rydw i'n fusneslyd iawn – mae hynny yn handi pam mae rhywun angen syniadau!

**Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch?** Dim felly – rydw i'n hoffi ysgrifennu am bob math o bethau, o anifeiliaid yn y sw i fôr ladron.

**Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?** I fod yn awdur da mae'n rhaid i ti ddarllen lot. Darllen bob dim fedri di – cefn y bocs brecwast, y botel siampŵ, cylchgrawn, papur newydd, newyddion ar y we, comics…popeth!

**Beth yw'r peth gorau / gwaethaf am fod yn awdur?** Y peth gorau yw cyfarfod plentyn sydd wir wedi mwynhau llyfr dwi wedi ysgrifennu. Y peth gwaethaf ydi … allai ddim meddwl am unrhyw beth drwg am fod yn awdur!

## Cwestiynau Cyflym

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?** *Alffi a Lili Mei*

**Hoff gymeriad o lyfr?** Ron Weasley o *Harry Potter*

**Hoff le?** Traeth Nefyn

**Hoff fwyd?** Tôst a Nutella

**Hoff air?** Mrengian! (Gair Pen Llŷn ydio sy'n golygu pan mae rhywun yn hongian arnoch chi – dwi'n dweud wrth fy mab tair oed yn aml "Paid â mrengian!")

**Superpower o ddewis?** Gallu hedfan

**Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol?** Instagram

**Beth sy'n gwneud i chi wenu?** Babis

**Swydd tase chi dim yn awdur?** Swydd ddelfrydol? Plymiwr Tanfor

**Top tip i ddarpar awduron**: darllenwch a byddwch yn hyderus

# Y Beirniaid





### Alun Horan

*Cynhyrchydd teledu a chadeirydd y panel beirniadu*

Yn blentyn roeddwn i'n dwlu ar ddarllen a hanes, ac yn naturiol, felly, brenin tŷ ni oedd T Llew Jones. Dwi'n dal i gofio'r wefr o ddarllen ei lyfrau, a sylweddoli bod pethau mawr, diddorol wedi digwydd fan hyn yng Nghymru, ac nid dim ond yn Lloegr.

Dwi'n edrych ymlaen yn fawr iawn i fod yn feirniad Tir na n-Og eto eleni – mae'r wobr yn rhoi llwyfan holl bwysig i ddathlu awduron a llyfrau plant yn yr iaith Gymraeg. Gyda thair o ferched oed cynradd yn y tŷ, mae beirniadu'r wobr hefyd yn gyfle i roi'r teitlau amrywiol gerbron y gynulleidfa darged!



### Morgan Dafydd

*Sylfaenydd gwefan*
Sôn am Lyfra

A bod yn hollol onest, doeddwn i ddim yn ddarllenydd mawr pan oeddwn i'n ifanc, ond roeddwn i'n mwynhau edrych ar lyfrau ffeithiol. Erbyn hyn dwi'n meddwl ei bod hi'n hynod o bwysig fod plant yn dewis y llyfrau iawn iddyn nhw ar gyfer darllen er pleser.

Mae wir yn fraint cael fy ngwahodd i fod yn feirniad ar gyfer gwobr mor bwysig â Gwobr Tir na n-Og. Mae'n ffordd wych o roi cyhoeddusrwydd i lyfrau newydd yn ogystal â dod â thipyn o sylw i'r byd llenyddiaeth plant ehangach yng Nghymru.



### Sara Yassine

*Cyn-athrawes*

Dwi wastad wedi bod yn hoff o ddarllen ac roedd gen i ddychymyg byw fel plentyn – rhywbeth a oedd yn bendant yn gysylltiedig â'r holl ddarllen. Os ydych chi'n dewis y llyfrau cywir, gallwch ddod yn gaeth iddyn nhw.

Mae'n fraint, cael bod yn rhan o'r panel eleni. Dwi'n edrych ymlaen yn fawr at weld beth sydd ar gael i blant heddiw, a hefyd gweld yr hyn y collais allan arno – er, dwi'n siŵr bydda i'n mwynhau darllen lot ohonyn nhw fel oedolyn!



### Ceri Griffith

*Myfyriwr MA mewn Cymraeg ac Astudiaethau Celtaidd*

Dwi wedi bod wrth fy modd yn darllen ers pan oeddwn yn blentyn bach; yn aml byddai pentwr o lyfrau'n codi wrth ochr fy ngwely gan nad oedd digon o le ar y silff.


Fel aelod o'r panel beirniadu dwi'n edrych ymlaen at ddarllen yr ystod eang o destunau! Mae'r gwobrau hyn yn hollbwysig er mwyn hybu llenyddiaeth i blant a phobl ifanc yn y Gymraeg, yn enwedig wrth annog rhagor o awduron i gyflwyno testunau amrywiol a difyr.

# Sylwadau'r Beirniaid



Hoeliodd y llyfr yma ein sylw o'r paragraffau cyntaf, ac roedd cyffro'r stori yn amlwg o'r dechrau.

Mae cymeriad Magi yn hoffus a direidus sy'n codi chwilfrydedd, ac yn ennyn cydymdeimlad.





Mae llawer o gymeriadau cofiadwy yn yma, fel Mrs Rowlands, Nyrs Jenat a Cwc, a sawl tro annisgwyl yn y stori.

Fel mae'r broliant gan Cain, 9 oed yn dweud "Weithiau ro'n i isio crio ond nes i chwerthin lot hefyd.", dyma'n union oedd ein teimladau ni hefyd.

Dyma nofel graffig uchelgeisiol sy'n dilyn hynt a helynt Gwil wrth iddo fynd ar antur liwgar, ddoniol a chyffroes drwy hanes.

Mae'r stori'n ddoniol gyda digwyddiadau dychmygus, bwystfilod arbennig, a phrif gymeriad sydd rhywsut yn gallu goroesi pob trallod ac anrhefn.





Mae'r darluniau a'r dyluniad yn hollol anhygoel, llawn manylder. Gallwch chi edrych a rhyfeddu arnynt am oriau.

# Sylwadau'r Beirniaid



Fe Gafaelodd y stori ym mhob un o'r beirniaid o'r cychwyn cyntaf ac roedd yr hiwmor yn hawdd.

Roedd y stori dditectif yn helpu'r naratif, yn cadw'r darllenydd i droi'r tudalennau.





Enillodd y llyfr cyntaf, *Sw Sara Mai*, wobr Tir na n-Og y llynedd. Mae'r llyfr yma yn datblygu ar y nofel gyntaf, ac yn cyflwyno elfennau mwy amlochrog i gymeriad Sara Mai.

# Tudalen Nodiadau




Defnyddiwch y dudalen yma ar gyfer unrhyw nodiadau hoffech chi ysgrifennu am y llyfrau. Efallai bydd sgorio'r llyfrau yn eich helpu i benderfynu pa lyfr yw'r gorau yn eich barn chi.


*Llungopïwch y dudalen yma i bob adolygwr.*




☆☆☆☆☆




☆☆☆☆☆




☆☆☆☆☆

# Cardiau Pleidleisio



Nawr eich bod chi wedi darllen a thrafod y llyfrau sydd ar restr fer gwobr Tir na n-Og 2022, dyma'ch cyfle chi i bleidleisio dros y llyfr gorau yn eich barn chi. Rhowch X yn y bocs i nodi'ch enillydd chi.

**Gwag y Nos** ☐

**Gwil Garw a'r Carchar Crisial** ☐

**Sara Mai a Lleidr y Neidr** ☐

---

**Gwag y Nos** ☐

**Gwil Garw a'r Carchar Crisial** ☐

**Sara Mai a Lleidr y Neidr** ☐

---

**Gwag y Nos** ☐

**Gwil Garw a'r Carchar Crisial** ☐

**Sara Mai a Lleidr y Neidr** ☐

2022

# Tir na n-Og

GWOBRAU • AWARDS

**Beth am rannu eich profiad cysgodi ar y cyfryngau cymdeithasol?**

Cofiwch dagio ni:
@LlyfrDaFabBooks
a defnyddiwch yr hashnodau:
#CaruDarllen
#TNNO2022
#CysgodiTNNO2022

#CaruDarllen

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES